# Jac y Do

**Ffurf:**
Uned hir i bum cwpwl. Partneriaid yn wynebu ei gilydd.



Cam 1

**1**

Gan ddal dwylo mewn llinellau a wynebu eu partner, pawb yn cerdded 4 cam ymlaen a 4 cam yn ôl.

Pawb ymlaen am 8 cam i newid lle gyda'u partner gan basio ysgwydd dde.

**2**

Ailadrodd 1 i fynd yn ôl i'w lleoedd gwreiddiol.



Cam 3

**3**

Cwpwl un yn llithro i waelod yr uned am 8 cam, ac yn ôl am 8 cam.

**4**

Cwpwl 1 yn **troi** allan i waelod yr uned, a phawb yn eu dilyn gan gadw yn eu llinellau.

Cwpwl 1 yn gwneud pont a'r partneriaid yn dawnsio o dan y bont ac yn ôl i'w lle gan symud i fyny un lle.



Cam 4

Ailddechrau'r ddawns gyda chwpwl 2 yn y safle gynta a chwpwl 1 nawr yn y bumed safle. Parhau nes bod y cyplau nôl yn eu lleoedd gwreiddiol.

Dewch i Ddawnsio Gwerin
tinint
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
Cymraeg Byd Addysg In Education

# Jac y Do

## Cerdded i guriad

SGIL 1





Cerdded ar flaenau'r traed gyda phelen y droed yn cymeryd y llawr cyn y sawdl. Dylai pob cam gyd-fynd â churiad y gerddoriaeth. Dylid cychwyn gyda'r droed dde.



tinint
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
CYMRAEG
Byd Addysg
In Education

# Jac y Do

## Llithro

SGIL 2





Camu i deithio wysg yr ochr. Gellid symud mewn llinell neu gylch i'r dde neu i'r chwith. Yn y ddawns hon mae'r bechgyn yn symud i'r dde ac mae'r merched yn symud i'r chwith. Arwain gyda'r droed a dod â'r droed arall at ei hochr. Un cam i bob curiad.


tinint
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
Cymraeg Byd Addysg In Education

# Jac y Do

## Ffurfio Pont

SGIL 3



Pont un fraich



Pont dwy fraich

Gellid ffurfio pont gydag un fraich neu ddwy fraich. Pan yn ffurfio pont un fraich, bydd y bachgen a'r ferch yn wynebu'r un ffordd ac yn cydio'u dwylo mewnol, ond os yn ffurfio pont dwy fraich, wedyn byddant yn wynebu ei gilydd ac yn cydio dwy law.

# Jac y Do

## Croesi

**SGIL 4**





Newid lle gan basio ysgwydd dde mewn 8 curiad

Newid lle gan basio'r ysgwydd dde mewn 8 curiad. 4 cam i newid lle a 4 cam i droi gan ddilyn yr ysgwydd dde i wynebu'r partner. Gellid sgipio neu gerdded. Arwain gyda'r droed a dod â'r droed arall at ei hochr. Un cam i bob curiad.

# Jac y Do

## Castio

SGIL 5





Partneriaid yn wynebu'r blaen ac yn troi oddi wrth ei gilydd gan arwain i waelod yr uned.